

Creu Coetir – Tystiolaeth o Reoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cyd-destun y Polisi	3
Amcanion y canllaw hwn	4
Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR)	4
Meysydd sydd angen Eglurhad – Ystyriaethau cyn ymgeisio	6
a) Map Cyfleoedd Creu Coetir	6
b) Cynefinoedd ac ardaloedd sy'n destun dadl	7
c) Rhanddeiliaid	8
d) Tir heb ei blannu – bwriadau perchennog y tir	8
Atodiad 1 - Rolau a chyfrifoldebau CNC mewn cysylltiad â choedwigoedd, coetir a choed	10
Atodiad 2 - Rolau'r Sefydliadau – Enghraifft Cynllun Creu Coetir Glastir	12
Atodiad 3 – Fframwaith Penderfynu SMNR ar gyfer cynigion creu coetir	14
Atodiad 4 – Ystyriaethau all gwrthdaro â'i gilydd – cadw'r ddysgl yn wastad .	27
Mathau o gynefin	27
Dynodiadau Anstatudol – SINC's, RIGs a SLAs	32
Atodiad 5 – Gwasanaethau ecosystem a chreu coetir	38
Atodiad 6 – Aflonyddu pridd a Charbon	39

Cyflwyniad

Amcan y canllaw hwn yw esbonio'r dystiolaeth y mae gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei dangos i brofi ei fod wedi ystyried amcan ac egwyddorion Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR) wrth gyflawni'i swyddogaethau o ran newid defnydd tir i greu coetir newydd. Wrth fodloni SMNR, bydd CNC wedi ysgwyddo hefyd ei ddyletswydd adran 6 o ran creu coetir newydd.

Mae'r canllaw hwn gam islaw canllaw *statudol* SMNR sydd eisoes wedi'i gyflwyno i CNC, *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol*, *Canllaw ar Ddiben Cyffredinol Adnoddau Naturiol Cymru* sy'n disgrifio dyletswyddau CNC wrth geisio Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol fel rhan o'i gylch gwaith ehangach. Bydd y canllaw hwn yn ymdrin ag adrannau 3, 4 a 5 y siart llif penderfyniadau yn y canllaw *statudol* uchod a'i swyddogaethau wrth greu coetir newydd.

Dylai CNC gyflawni amcan ac egwyddorion SMNR fel *rhan o'i swyddogaethau*. Ni ddylai fod yn ychwanegol atynt ac ni ddylai ei rwystro rhag eu cyflawni. Wrth gyflawni'i swyddogaethau o dan Ddeddf Goedwigaeth 1967, rhaid i CNC chwilio am "gydbwysedd rhesymol" rhwng creu a rheoli coetir a chynhyrchu pren, a gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol sydd o ddiddordeb arbennig. Byddai hynny'n cyd-fynd ag amcan ac egwyddorion SMNR.

Mae gan CNC ran bwysig iawn yn y broses o greu coetir, a dangosir hynny yn Atodiad 1. Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i **holl** staff CNC sy'n gysylltiedig â chreu coetiroedd newydd. Mae'n fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n gyson ag SMNR (Atodiad 3). Bydd yn llywio ac yn cofnodi'r broses benderfynu ac yn darparu tystiolaeth ohoni. Tîm Rhaglenni Coetir CNC ddylai wneud hyn mewn perthynas â chynigion creu coetir sy'n cael cymorth grant A Thîm Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ddylai wneud mewn perthynas â cheisiadau heb eu cyllido am farn neu ganiatâd EIA. Bydd hynny'n sicrhau y caiff y *rhan fwyaf* o gynigion ar gyfer creu coetir newydd eu hasesu ar sail SMNR. Dylai cyfraniad staff eraill CNC yn y broses o greu coetir hefyd fodloni amcan ac egwyddorion SMNR yn unol â'r canllaw hwn.

Mae'r fframwaith penderfynu SMNR yn nodi sut mae Safon Goedwigaeth y DU (UKFS) yn cefnogi ac yn bodloni amcan ac egwyddorion SMNR. O'r herwydd, **rhaid i gynigion fodloni o leiaf yr UKFS.**

Gallai fframwaith penderfynu SMNR a'r egwyddorion sy'n sail iddo gael eu hymgorffori ym mhrosesau CNC gan symleiddio'r drefn ar gyfer asesu cynigion ar gyfer creu coetir newydd. Ond **rhaid** i'r cyfan arwain at gofnod o'r penderfyniadau sy'n gyson ag egwyddorion SMNR ac a all wrthsefyll cael ei herio.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y cynnig ac **ni fydd pob un o egwyddorion SMNR yn berthnasol**. Dylid nodi hefyd fod **HOLL egwyddorion SMNR yn GYDRADD a'u bod yn ategu'i gilydd**. Yr amcan yn y pen draw yw gallu dangos a yw cynnig yn gwireddu amcan SMNR a'r broses benderfynu sydd y tu ôl iddi. Bydd dilyn egwyddorion SMNR yn help i gyflawni hyn.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio hefyd sut i ddefnyddio SMNR mewn nifer o feysydd y tynnir sylw atynt wrth wneud y gwaith hwn. Fe'u disgrifir yn Atodiad 4. Mae'r adran

hon yn fwy perthnasol i'r cyngor a roddir gan CNC i ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig cyn iddynt ymgeisio.

Yn ogystal â dilyn y canllaw hwn, dylai CNC sefydlu panel adolygu annibynnol gydag uwch reolwyr CNC yn aelodau ohono i ddyfarnu ar faterion cymhleth neu wleidyddol sensitif neu i dorri'r ddadl pan fydd tystiolaeth yn gwrthdaro er mwyn helpu staff a sicrhau cysondeb trwy Gymru.

Er mai **gofyn ar CNC yn unig** yw Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, dylai rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig â'r broses creu coetir ddarllen y canllaw hwn (Atodiad 2), er mwyn deall sut mae CNC yn defnyddio'r broses SMNR wrth ystyried cynigion creu coetir. Bydd ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig yn gwybod felly bod angen ystyried SMNR wrth ddatblygu cynigion creu coetir newydd a dangos yn glir eu bod yn cydymffurfio â'r UKFS.

Cyd-destun y Polisi

Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i ddilyn y polisi a geir yn:

- Polisi Adnoddau Naturiol Cymru
- Coetiroedd i Gymru – Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed
- Ffyniant i Bawb : Cymru Carbon Isel a Chymru sy'n Effro i'r Hinsawdd
- Cynllun Aer Glân Cymru
- Ymateb Llywodraeth Cymru i Ran 2 Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
- Cynllun Adfer Natur Cymru

Maen nhw'n cydnabod y cyfraniad y gall coedwigoedd a choetiroedd ei wneud at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, ac at les ei phobl.

Mae creu coetiroedd yn rhan bwysig iawn o ymateb Cymru i'r Argyfwng Hinsawdd a gyhoeddwyd yn Ebrill 2019. Mae coetiroedd newydd yn gallu helpu defnyddiau tir eraill i addasu i'r newid yn yr hinsawdd trwy integreiddio ac maent hefyd yn dal carbon ac yn darparu manteision ecosystem eraill. Mae'r argyfwng natur yn dwysáu beunydd felly mae'n bwysig ein bod yn plannu'r coed iawn yn y lle iawn er mwyn gwella'n hamgylchedd a'n heconomi a chyfrannu at iechyd a lles. Mae'r canllaw hwn yn cynnig fframwaith fydd yn sicrhau bod penderfyniadau i newid defnydd tir i greu coetir yn ystyried amcan ac egwyddorion SMNR wrth gyflawni hynny.

Amcanion y canllaw hwn

Amcanion y canllaw hwn yw:-

- Sicrhau bod y broses creu coetir yn glir i bawb sydd ynghlwm wrthi, cael gwared ar ansicrwydd, sicrhau mwy o gysondeb, rheoli disgwyliadau a chreu cofnod o'r modd y mae SMNR wedi'i ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau.
- Esbonio sut i gofnodi bod amcan ac egwyddorion SMNR (fel y'u disgrifir yn Neddf yr Amgylchedd) wedi'u bodloni wrth ystyried prosiectau creu coetir a chynlluniau grant, EIA a phenderfyniadau rheoleiddio eraill cysylltiedig, a chadw tystiolaeth o hynny.
- Bod yn bwynt cyfeirio pan fydd her neu apêl yn erbyn penderfyniad gan CNC.
- Dangos sut y gall Safon Goedwigaeth y DU helpu i gefnogi a chynnal SMNR.

Pwysig: Nid ydym am i'r canllaw fod yn set ddiwyro o gyfarwyddiadau neu fatrics pendant. Yn hytrach, dylai roi nod clir a fframwaith o egwyddorion i'w defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch cynigion unigol ac ar gyfer darparu tystiolaeth. Bydd pob cynnig yn wahanol, gan ddibynnu ar ei gyd-destun, a mater i CNC fydd dehongli a chyfiawnhau ei benderfyniadau ar sail y canllaw hwn ac ar ei arbenigedd.

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR)

Mae'r adran hon yn disgrifio ymrwymadau CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) mewn cysylltiad ag egwyddorion SMNR a'u perthynas â'r UKFS.

Diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ôl adran 5 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yw:

Mae'n rhaid i'r Corff

(a) ymgynhyrchu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru,
a

(b) cymhwysu egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

Amcan SMNR yw:

Cynnal a gwella cydnerthed ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny, diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn Adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae **egwyddorion** SMNR yn diffinio sut y dylai CNC weithio i gyflawni amcan SMNR ac adlewyrchu'r hyn sydd angen ei wneud i gynnal a gwella cydnerthedd

ecosystem trwy'r dull rheoli ar sail ecosystem. Byddai hynny'n cynyddu'r gwasanaethau ecosystem y gallai coetir newydd eu darparu a dylid ystyried hynny bob tro os medrir. **Ni fydd pob un o egwyddorion SMNR yn berthnasol** nac yn dylanwadu ar bob cynnig. **Dylid nodi bod HOLL egwyddorion SMNR yn GYDRADD ac yn ategu'i gilydd** – nid yw un egwyddor yn bwysicach na'r lleill. Dylai Cynllunwyr Cofrestredig wybod egwyddorion SMNR a'u hystyried wrth ddatblygu'u cynigion.

Cyflwynodd **adran 6** o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd gryfach ynghylch bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau i CNC. Dywed:-

Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

Wrth gyflawni amcan SMNR, bydd CNC yn cyflawni dyletswydd *gyffredinol* o dan adran 6 mewn cysylltiad â chynigion creu coetir; a bydd y ddyletswydd *adrodd* ar wahân o dan adran 6(6) yn gofyn iddo baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sut y mae'n cydymffurfio â dyletswydd Adran 6. Nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin â honno.

Mae Adran 7 y Ddeddf yn cymryd lle Adran 42 Deddf NERC, gan roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi, adolygu ac adnewyddu rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd yr ystyrir eu bod yn arbennig o bwysig i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Hefyd, i gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd ar y rhestrau ac annog eraill i wneud yr un peth. Cyfeirir at y cynefinoedd a'r rhywogaethau Adran 7 hyn yn aml fel rhai â blaenoriaeth ac maent yn bwysig wrth asesu a yw adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

Safon Goedwigaeth y DU (UKFS) yw safon y Llywodraeth ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU ac mae'n cynnwys gofynion a chanllawiau ar gyfer creu coetir newydd. Ymdrinnir ag agweddau fel bioamrywiaeth, pobl, pridd, dŵr, newid hinsawdd, tirwedd a hanes. Cafodd pedwaredd fersiwn y Safon ei chyhoeddi yn 2017 ac mae wrthi'n cael ei diweddarau, hynny gan ymgynghori'n ffurfiol unwaith eto â nifer o randdeiliaid yn y sector, gan gynnwys yr RSPB. Mae llawer rhan o'r diwydiant coedwigaeth yn ei derbyn. Sicrheir cydymffurfiaeth yng Nghymru trwy gynlluniau grant a rheoliadau fel trwyddedau cwmpo a'r broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol.

Gofyn ar CNC yn unig yw Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol. Mae'r UKFS yn cefnogi amcan ac egwyddorion SMNR fel y'u nodir yn Fframwaith Penderfynu SMNR. Er bod yn **rhaid** i asiantwyr/Cynllunwyr Cofrestredig sicrhau bod eu cynigion creu coetir yn **cydymffurfio o leiaf â'r UKFS**, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu eu bod yn bodloni SMNR. Mae gofynion Cyfreithiol ac Arferion Coedwigaeth Da yr UKFS yn defnyddio termau gorfodi tra bo Canllawiau'r UKFS yn defnyddio termau gorchmynnol sy'n adlewyrchu'u cyd-destun a'u perthnasedd gan ymddangos ambell waith felly fel pe baent yn llai gorfodol. Mae pwrpas CNC yn golygu bod yn rhaid iddo ystyried SMNR wrth asesu cynigion ar gyfer coetiroedd newydd sy'n cydymffurfio â'r UKFS a phrofi a darparu tystiolaeth eu bod yn cyflawni amcan SMNR. Felly byddai ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig yn ddoeth i ystyried SMNR wrth ddatblygu

cynigion creu coetir newydd a sicrhau eu bod yn dangos yn glir eu bod yn cydymffurfio â'r UKFS.

Mae **Atodiad 3** yn nodi fframwaith penderfynu SMNR ar gyfer cofnodi sut mae pob cynnig creu coetir newydd yn gwireddu amcan SMNR a'r broses benderfynu sy'n sail iddo. Dylid llenwi'r Fframwaith Penderfynu ar gyfer **pob** cynnig. Tîm Rhaglenni Coetir CNC ddylai wneud hyn mewn perthynas â chynigion creu coetir sy'n cael cymorth grant A Thîm Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ddylai wneud mewn perthynas â cheisiadau heb eu cyllido am farn neu ganiatâd EIA. Gall fframwaith penderfynu SMNR a'r egwyddorion sy'n sail iddo gael eu hymgorffori ym mhrosesau CNC i symleiddio'r drefn ar gyfer asesu cynigion ar gyfer creu coetir newydd. Ond **rhaid** i'r cyfan arwain at gofnod o'r penderfyniadau sy'n gyson ag egwyddorion SMNR ac a all wrthsefyll cael ei herio.

Trwy lenwi'r erfyn penderfynu hwn, dangosir sut y mae'r cynnig creu coetir newydd wedi'i ddatblygu ar sail egwyddorion SMNR i fod yr "ateb" mwyaf addas fel ag a ddisgrifir yn adrannau 3, 4 a 5 Siart Llif Penderfynu'r canllaw statudol cyffredinol sydd eisoes wedi'i gyflwyno i CNC *'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol, Canllaw ar Ddiben Cyffredinol Adnoddau Naturiol Cymru'*.

Wrth ystyried cynigion ar gyfer creu coetir, mae'n debygol y gwelir llawer o gyfyngiadau, cyfleoedd ac amcanion, gyda llawer ohonynt yn cystadlu â'i gilydd. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae angen i gymaint o'r ffactorau cystadleuol hyn â phosibl esgor ar ganlyniadau positif, *hynny yng nghyd-destun swyddogaeth CNC fel rheoleiddiwr/asesydd cynigion creu coetir*. Trwy ystyried a chofnodi tystiolaeth ar sail egwyddorion SMNR, sicrhair penderfyniadau doeth y gellir eu cyfiawnhau. Yr amcan yn y pen draw yw dangos bod y cynnig a'r broses benderfynu sy'n sail iddo yn bodloni amcan SMNR - bydd dilyn egwyddorion SMNR yn help i gyflawni hynny.

Er nad oes rheidrwydd ar ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig ddilyn egwyddorion SMNR, dylent wybod sut mae CNC yn defnyddio SMNR ac ystyried hynny wrth ddatblygu'u cynigion.

Meysydd sydd angen Eglurhad – Ystyriaethau cyn ymgeisio

Mae'r ymarferiad hwn wedi dangos nifer o feysydd lle ceir anghysonderau o ran defnyddio SMNR i asesu prosiectau creu coetir. Mae'r adran hon yn rhoi cyngor i ymgeiswyr cyn ymgeisio ac yn ymwneud â Fframwaith Penderfynu SMNR yn Atodiad 3. Mae'n esbonio sut mae SMNR yn berthnasol i'r meysydd hyn.

a) Map Cyfleoedd Creu Coetir

Nid yw Llywodraeth Cymru am i'r Map Cyfleoedd Creu Coetir ddweud ble y cewch chin neu gewch chi ddim plannu coetir newydd. Mae'r map yn annog pobl i blannu coed yng Nghymru trwy ddarparu erfyn fydd yn eu helpu i ddatblygu a dylunio cynigion creu coetir newydd. Bydd y map yn nodi sensitifeddau ledled Cymru, gan dynnu sylw Cynllunwyr Cofrestredig atynt fel **man cychwyn** ar gyfer casglu rhagor o

dystiolaeth a thrafod gyda chyrrff perthnasol. Bydd Asiantwyr/Cynllunwyr Cofrestredig yn gallu holi hefyd timau rhaglenni coetir neu wasanaethau trwyddedu CNC am ragor o wybodaeth. Dylid gwneud hyn **ymhell cyn** gofyn am farn EIA neu gyflwyno cais am grant. Mae'r Map yn dangos haenau o ddata hefyd am wasanaethau ecosystem gan ddangos ble y byddai'n fwy manteisiol creu coetir newydd. Bwriad Llywodraeth Cymru yw gweld y Map yn ategu Datganiadau Ardal ac ymhen amser, yn cael ei gyfuno â nhw.

b) Cynefinoedd ac ardaloedd sy'n destun dadl

Mae cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhan bwysig o SMNR a'r ddyletswydd Adran 6 gysylltiedig. Mae cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 yn golygu, ymhlith pethau eraill, osgoi difrodi, lleihau niwed na ellir ei osgoi, mesurau lliniaru i gynnal a gwella a mesurau cydbwysu lle gwelir bod angen¹. Dylid crynhoi'r dystiolaeth fel ag a ddisgrifir yn Atodiad 3 i ddangos bod y broses benderfynu'n gadarn gan y gallai'r broses gael ei herio.

Mae'r canllawiau canlynol ar gynefinoedd a sensitifeddau y bydd gofyn i gynigion creu coetir newydd eu hystyried eisoes ar gael:

[GN002 - Canllaw Creu Coetir Glastir i Gynllunwyr](#)

[GN009 - Darparu tystiolaeth ychwanegol ar gynefinoedd â blaenoriaeth a mawn dwfn](#)

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i gynigion creu coetir di-grant y mae angen caniatâd EIA arnynt, yn ogystal ag i'r rheini a ddaw **o dan** drothwyon yr EIA, er mwyn creu coetir cynaliadwy sy'n cydymffurfio â'r UKFS.

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, mae **Atodiad 4 yn rhestru cynefinoedd sydd 'ar y ffin' ac ardaloedd sy'n destun dadl** sydd wedi cael eu nodi fel safleoedd posibl ar gyfer coetir newydd **cyn belled** â'u bod yn bodloni rhai ystyriaethau. Bydd ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig sy'n bwriadu cynnwys y cynefinoedd hyn yn eu cynigion plannu yn **gorfod** trafod eu cynigion yn y lle cyntaf â Thîm Rhaglenni Coetir CNC neu dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC (achosion EIA), a hynny **ymhell** cyn cyflwyno cais er mwyn cadarnhau ei fod yn briodol. Gyda hynny, dylid cyflwyno tystiolaeth ffotograffig o'r safle a chyd-destun ehangach y tir er mwyn i swyddogion tîm Rhaglenni Coetir/Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC allu trafod y safle ag arbenigwyr cynefinoedd perthnasol CNC, a fyddai'n gallu dweud a oes angen ymweld â'r safle neu gynnal arolwg ohono.

Er bod trwch y canllawiau hyn yn ymdrin â chynefinoedd, mae *rhywogaethau Adran 7 a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS)* yn destun sylw dyletswydd Adran 6 CNC hefyd. Mae presenoldeb rhywogaeth Adran 7 neu rywogaeth sy'n cael ei gwarchod trwy statud yn fesur a yw safle'n bwysig am ei fioamrywiaeth neu a ellir ystyried plannu coetir arno (gweler Atodiad 4). Dylid gofalu nad yw cynigion yn torri cyfraith gwarchod rhywogaethau.

¹ Wedi'i addasu o Natur Hanfodol, cyfeiriad strategol CNC ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022

c) Rhanddeiliaid

Mae dwy o egwyddorion SMNR yn ymwneud yn benodol â rhanddeiliaid:-

- hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt;
- gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;

Mae UKFS yn adlewyrchu'r ddwy yn ei gofynion. Dylai'r graddau y rhoddir sylw iddynt fod yn **gymesur â chymhlethdod a maint y prosiect**. Mater i CNC fydd penderfynu a yw'r camau sydd wedi'u cymryd yn hyn o beth wedi bod yn gymesur a rhesymol. Bydd hyn yn amrywio'n fawr o safle gwledig diarffordd i safle mewn ardal drefol boblog.

Cydweithio a Chyfranogi

Mae'r Map Cyfleoedd yn nodi'r sensitifeddu, ac mae hynny'n fan cychwyn ar gyfer cydweithio a thrafod â rhanddeiliaid statudol ac anstatudol perthnasol. Rhaid defnyddio'r cyngor a geir gan rhanddeiliaid statudol wrth ddylunio'r cynigion. Dylid hefyd ystyried cyngor rhanddeiliaid anstatudol. Dim ond pan nad yw'n datrys problem y dylid diystyru cyngor rhanddeiliaid anstatudol a bydd angen i'r ymgeisydd/Cynllunydd Cofrestredig roi rhesymau cryf dros wneud hynny. Anogir ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig i drafod y problemau hyn â thîm Rhaglenni Coetir neu Wasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) (achosion EIA) CNC yn ystod cam datblygu'r cynnig plannu. Dylid hefyd cydweithio ac ymgynghori'n fewnol ag arbenigwyr CNC a dylai Fframwaith Penderfynu SMNR yn Atodiad 3 adlewyrchu hynny. Dylai arbenigwyr CNC roi cyngor sy'n gyson ag egwyddorion SMNR.

Cyfranogi Cyhoeddus

Nid oes gofyn cyfreithiol i wahodd y cyhoedd i gymryd rhan na hwyluso hynny. Fodd bynnag, fel mater o bolisi, bydd hyn yn gam pwysig wrth ddatblygu cynigion gan nad yw cynigion plannu ar hyn o bryd yn cael eu rhoi ar Gofrestr Gyhoeddus CNC, hynny am nad oes gofyn statudol iddynt wneud hynny. Mae cael cyfranogi yn rhoi cyfle i'r cyhoedd fynegi pryderon neu ddangos cefnogaeth ac i ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig fynd i'r afael â meysydd gwrthdaro yng nghan datblygu'r cynnig. Wrth benderfynu ar gynnig plannu, rhaid ystyried amrywiaeth o agweddau. **Mae'r materion a godir gan aelodau'r cyhoedd yn un o'r ystyriaethau hynny a rhaid gosod eu perthnasedd a'u pwysigrwydd yn y glorian gydag agweddau eraill.** Dylai'r graddau yr ymgynghorir â'r cyhoedd gyfateb i natur a maint y cynnig ond dylid sicrhau o leiaf cyfraniad cymdogion agos a'r rheini sydd â thir sy'n ffinio â'r coetir newydd.

d) Tir heb ei blannu – bwriadau perchennog y tir

Ni ddylai datganiad perchennog y tir na'i gynlluniau ar gyfer ei reoli yn y dyfodol effeithio ar y penderfyniad i blannu gan y gall y perchennog a'r amcanion newid. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar amcan SMNR a dylai fod tystiolaeth o

hynny. Yn yr un modd, efallai na fyddai'n ymarferol pori tir agored neu adael tir heb ei blannu ar gyfer cynefin am fod mynediad yn anodd, am ei fod yn ddiaffordd neu am nad oes cyflenwad dŵr. Er y dylid annog rheoli cynefin, nid oes gofyn cyfreithiol i barhau i reoli'r tiroedd hyn fel cynt.

Atodiad 1 - Rolau a chyfrifoldebau CNC mewn cysylltiad â choedwigoedd, coetir a choed

Rôl	Cyfrifoldebau
Rheolwr Tir	CNC sy'n rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn ogystal â Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol lle ceir rhai o'r coetiroedd brodorol gorau yng Nghymru, sy'n werthfawr iawn o ran eu bioamrywiaeth a'u diwylliant. Mae'r Ystad Goed yn cyfrif am ryw 40% o Adnoddau Coed Cymru, gan gyflenwi bron 60% o bren ardystiedig Cymru i FSC/PEFC. Mae'r Ystad Goed yn Dir Mynediad Agored gan roi cyfleoedd mynediad ledled Cymru o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn aml ger lle mae pobl yn byw a gweithio. Hefyd, mae CNC yn darparu ac yn rheoli amrywiaeth o ddigwyddiadau, cyfleoedd a llwybrau hamdden gan gynnwys canolfannau ymwelwyr a llwybrau cerdded, merlota, beicio, rhedeg a beicio mynydd sy'n denu dros 4 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn ac yn rhoi cyfle i gynyddu gweithgarwch corfforol ac i ddysgu yn ac am yr amgylchedd a sgil-fanteision economaidd i gymunedau.
Rheoleiddwr	CNC sy'n gyfrifol am reoli gwaith cwmpo ac ailblannu coetir, creu coetir newydd, datgoedwigo, traciau a chwareli mewn coetir ac iechyd coed mewn coedwigoedd trwy drwyddedu a chaniatáu, asesu cydymffurfiaeth, ymchwil i droseddau posibl a chymryd camau gorfodi. CNC yw'r coff statudol ar gyfer gwarchod safleoedd dynodedig: SoDdGA i gydymffurfio â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Mynediad (1981); AGA ac ACA o dan Gyfarwydddebau Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE. Mae'r safleoedd hyn yn diogelu rhai o'n coetiroedd brodol. CNC sydd hefyd yn gweinyddu'r rhestr o Goetiroedd Hynafol. Mae CNC yn rheoleiddwr o dan Reoliadau Cynefinoedd (2010) lle gall coedwigaeth/gweithgarwch coetir effeithio ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop.
Cynghorydd / corff ymgynghori	Mae CNC yn rhoi cyngor ac arweiniad statudol ac anstatudol ar draws cylch gwaith sefydliadol CNC, i Lywodraeth Cymru, diwydiant a'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyngor cynllunio, cyngor ar ddiogelu safleoedd gwarchodedig, rheoli coedwigoedd a chynghor ac arweiniad rheoleiddiol. Mae CNC yn gorff ymgynghori ar gyfer cynnal asesiadau amgylcheddol o raglenni, cynlluniau a phrosiectau cyrff eraill a'i rai ei hun. Mae CNC yn rhoi cyngor hefyd ar reoli rhywogaethau a allai fod yn niweidiol i goetiroedd fel ceirw a gwiwerod llwyd.

Rôl	Cyfrifoldebau
	Mae CNC yn dilysu cynlluniau Coetir Glastir yn unol â Safon Goedwigaeth y DU ar ran Llywodraeth Cymru.
Casglwr tystiolaeth	Mae CNC yn monitro'n hamgylchedd, gan gomisiynu a chynnal ymchwil, datblygu ein gwybodaeth a chadw cofnodion cyhoeddus, gan gynnwys mewn cysylltiad â choedwigaeth a rheoli coetir.
Partner / Addsygwr / Galluogydd	Mae CNC yn rheoli gwaith trydydd partion ar yr Ystad Goed (lle gall roi cyngor statudol arni i awdurdodau eraill ac ystyried ceisiadau am drwyddedau ganddynt yn unol â'r trefniadau rheoleiddio y mae ganddo gyfrifoldeb amdanynt). Trwy fframwaith Mynediad (Coetiroedd a Chi fel yr oedd), mae CNC yn annog unigolion, grwpiau a chyrff eraill i ddefnyddio'r Ystad Goed i gynnal gweithgareddau, prosiectau, digwyddiadau ac addysg. Nod CNC yw bod yn gatalydd i waith pobl eraill, gan eu helpu hwythau i gyfrannu at nodau llesiant. Er enghraifft, cynnig cyngor, arweiniad, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar goed, gweithio gydag Ysgolion Coedwig a hwyluso'r Rhwydwaith Hyfforddi a Dysgu yn yr Awyr Agored sy'n sicrhau safon ac ansawdd yr hyfforddiant mewn partneriaeth ag Agored Cymru.

Atodiad 2 - Rolau'r Sefydliadau – Enghraifft Cynllun Creu Coetir Glastir

Sefydliad	Tîm	Cyfraniad
Cyfoeth Naturiol Cymru	Rhaglen Goetir (Partner, Galluogydd)	Yn dilysu cynlluniau coetir Glastir (ers 2015) fel eu bod yn cydymffurfio â'r UKFS; yn cynnwys asesu safleoedd, cadarnhau bod nodweddion sensitif wedi'u nodi'n gywir a'u hystyried yn y cynnig, bod y cais wedi casglu ac ystyried tystiolaeth; bod penderfyniadau diweddar yn gyson ag SMNR.
	Polisi coedwigoedd (Cynghorydd)	Arweinwyr polisi coedwigoedd o fewn CNC – gweithio gyda LIC i baratoi arweiniad ar greu coetir yn unol ag egwyddorion SMNR a'r UKFS.
	Rheoliadau a Thrwyddedau Coedwigoedd (Rheoleiddwr)	Pan eir dros drothwy coedwigo'r EIA, bydd swyddogion FR yn asesu safleoedd ac yn rhoi cyngor technegol ar gyfer barn EIA yn unol ag egwyddorion SMNR; bydd y tîm trwyddedu'n rhoi barn EIA ar ran CNC sy'n cynnwys cyngor gan FR.
	CNC yn ymgynghori â – arbenigwyr cynefinoedd a rhywogaethau; swyddogion safleoedd dynodedig (corff ymgynghori)	Ymateb i ymgynghoriadau ar gynefinoedd, rhywogaethau adran 7 ac o fewn safleoedd dynodedig (neu eu lleiniau clustogi) yn unol ag egwyddorion SMNR.
Llywodraeth Cymru	Tîm Polisi Adnoddau Coedwig (Tir, Natur a Choedwigaeth)	Esbonio polisiâu creu coetir a darparu canllawiau ar gyfer creu coetir. Yn cefnogi'r system Map Cyfleoedd Creu Coetir. Yn goruchwyllo polisi a dyluniad y cynllun Glastir.
	Tîm Coetir Glastir (Taliadau Gwledig Cymru)	Rhoi cynllun Creu Coetir Glastir ar waith, gan gynnwys EOI, rhoi contractau, taliadau.
	Arolygiaeth Wledig Cymru (Taliadau Gwledig Cymru)	Cynnal archwiliadau ar safleoedd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, trawsgydymffurfio a rheolau
Ymgeisydd/Cynllunydd Cofrestredig²		Mae'r cynllunydd cofrestredig neu'r asiant yn ymgeisio ar ran perchennog y tir, gan gynnwys ymgynghori/casglu tystiolaeth ar nodweddion sensitif y safle

² Cynllunwyr Rheoli Coetiroedd – mae'r term wedi'i newid i Gynllunwyr Cofrestredig (cynllunwyr coetir cofrestredig). Mae gofyn i ymgeiswyr cynllun Creu Coetir Glastir ddefnyddio Cynllunydd Cofrestredig i baratoi cynllun creu coetir ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Sefydliad	Tîm	Cyfraniad
		ac i gefnogi'r cais. Dylai'r Cynllun Creu Coetir wireddu amcanion perchennog y tir, UKFS a'r rheoliadau, ac ystyried nodweddion sensitif y safle a lle bo angen, gofynion y cynllun cymorth.
Cyrff ymgynghori CADW, WATs, RSPB, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth Gwarchod Pili-palod, Parciau Cenedlaethol, AHNE		Ymateb i ymgynghoriadau ar nodweddion sensitif a ddangosir ar y Map Cyfleoedd Creu Coetir. Dylai'r ymatebion ystyried egwyddorion SMNR.
Cymunedau		Gofynnir i gynghorau cymuned am eu barn am gynlluniau creu coetir sy'n fwy na throthwy'r EIA. Argymhellir bod cymunedau'n cael rhoi barn am gynlluniau creu coetir mwy ar gyrion cymunedau.
Rhanddeiliaid unigol e.e. cymdogion		Mae lefel yr ymwneud â rhanddeiliaid yn dibynnu pa mor agos y bydd y coetir a faint o ddiddordeb sydd gan y rhanddeiliad yn y safle. Dylai lefel cyfranogiad y cyhoedd gyfateb i natur a maint y coetir.

Atodiad 3 – Fframwaith Penderfynu SMNR ar gyfer cynigion creu coetir

Mae Fframwaith Penderfynu SMNR isod yn ganllaw manwl ynghylch sut i ystyried egwyddorion SMNR, cofnodi tystiolaeth o hynny, a dangos sut mae'r cynnig yn bodloni amcan SMNR a'r broses benderfynu sy'n sail i hynny. Bydd yn dangos hefyd sut mae CNC yn cyflawni ei Ddyletswydd adran 6 trwy ystyried y materion hyn. Mae'r Fframwaith Penderfynu yn cynnig *enghreifftiau* o sut y dylid cofnodi tystiolaeth ar gyfer pob cynnig plannu fel rhan o'r broses benderfynu; yn ymarferol, dylid cofnodi tystiolaeth go iawn yn y golofn hon. Mae'r Fframwaith yn dangos hefyd sut mae'r UKFS yn cefnogi egwyddorion SMNR, er ein bod yn deall bod yna enghreifftiau eraill o fewn yr UKFS yn ychwanegol i'r rheini a nodir isod. Yr amcan yn y pen draw yw gallu dangos a yw cynnig yn gwireddu amcan SMNR a'r broses benderfynu sydd y tu ôl i hynny. Bydd dilyn egwyddorion SMNR yn help i gyflawni hyn.

Tîm Rhaglenni Coetir CNC ddylai llenwi'r Fframwaith Penderfynu hwn mewn perthynas â chynigion creu coetir sy'n cael cymorth grant A thîm Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ddylai ei lenwi mewn perthynas â cheisiadau EIA heb eu cyllido am farn neu ganiatâd.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y cynnig ac **ni fydd pob un o egwyddorion SMNR yn berthnasol** nac yn cael dylanwad mawr ar bob cynnig. Bryd hynny, dylid nodi bod hyn wedi'i ystyried ac na chaiff yr egwyddor ei ystyried gan nad yw'n berthnasol. Dylid nodi hefyd fod **HOLL egwyddorion SMNR yn GYDRADD a'u bod yn ategu'i gilydd**. Nid yw'r un egwyddor yn bwysicach na'r llall.

Dylai lefel y manylder yn yr wybodaeth ategol neu'r dystiolaeth a roddir fel rhan o gynnig creu coetir **adlewyrchu maint, cymhlethdod a sensitifrwydd y cynnig plannu**.

		Enw a Chyfeirnod y Cynnig Plannu:-
Amcan Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR) - Yr amcan yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny, diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.		

Y nod yw gwireddu'r amcan trwy ddilyn egwyddorion SMNR a darparu tystiolaeth o hynny. Dylid crynhoi'r egwyddorion ar ddiwedd y fframwaith penderfynu hwn a'u hasesu yn ôl Amcan SMNR.

Mae ecosystem gydnerth yn gallu gwrthsefyll aflonyddwch a chynnig manteision tymor hir i ddiwallu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd heddiw ac yn y dyfodol. Bydd creu coetir sy'n cyfrannu at wella bioamrywiaeth, cysylltedd, maint a chyflwr ecosystemau yn helpu i wireddu'r amcan. Gall coetir sydd wedi'i ddylunio'n wael neu sy'n cael ei blannu yn y lle anghywir wneud niwed i ecosystemau. Mae'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goetir yn cael eu disgrifio yn Atodiad 5.

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
(a) rheoli mewn modd ymaddasol , drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd; mae hyn yn caniatáu i ni fod yn barod i addasu wrth wneud penderfyniadau. Mae'n golygu	Ar lefel y strategaeth, monitro gwaith creu coetir yng nghyd-destun newid cynefin a chydnerthedd yr ecosystem ehangach a'r manteision a ddarperir. Ar lefel y prosiect coetir, seilir penderfyniadau LIC a CNC ar gynllun creu coetir. Rhoi tystiolaeth bod cynllun creu coetir yn cydymffurfio â'r UKFS a phrofi ei fod yn gynllun cynaliadwy sydd wedi'i ddylunio'n dda. Bydd hynny'n cynnwys monitro, adolygu ac addasu'r cynllun.	Mae'r rhywogaethau a ddewisir yn adlewyrchu amcanion, yn addas i'r safle ac yn cynnwys amrywiaeth er mwyn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid.	Forest Planning – Gofynion 16-17 a thudalennau 29-30 <i>Forests should be planned and managed to enhance their resilience and mitigate the risks posed to their sustainability by the effects of climate change or attack by pests or diseases.</i> <i>Management of the forest should conform to the</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
cynhyrchu gwybodaeth newydd a cheisio lleihau ansicrwydd, er mwyn i benderfynwyr allu rhagweld newid a pharatoi ar ei gyfer.			<i>plan, and the plan should be updated to ensure it is current and relevant.</i> Forests and Climate Change UK Forest Guidelines 22-24
(b) ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu; Mae hyn yn cynnwys ystried y lefel ofodol leol, rhanbarthol neu genedlaethol i fynd i'r afael â phroblemau.	Dylai cynllun y prosiect ystyried anghenion yr ecosystem a'r cynefinoedd y tu hwnt i ffin tir y perchenogion cyfreithiol i sicrhau bod yr ecosystem gyfan yn cael ei hystyried. Dylai'r ymgeisydd baratoi map o'r coetir a grëir i ddangos sut mae'r cynllun yn gweddu i'r tirlun, yn cyfrannu at gydnerthedd y rhwydweithiau ecolegol ac yn darparu gwasanaethau ecosystem. Dylai hyn gynnwys cyfiawnhad o'r maint, y berthynas â'r tirlun a nodweddion y cynefinoedd y tu allan i ffiniau'r ardal ynghyd â seilwaith a mannau o ddiddordeb o fewn y cynnig.	Mae map o ddyluniad y goedwig wedi'i ddarparu sy'n dangos lleoliad SoDdGA allanol. Mae natur y cynnig a'i leoliad o safbwynt y SoDdGA yn awgrymu na fydd yn effeithio arno. Mae dyluniad y cynnig yn cyd-fynd â'r tirlfurf	<i>General Forest Practice – Gofyniad 14 - “Forests and woodlands should be designed to achieve a diverse structure of habitat, and species and ages of trees, appropriate to the scale, context and ecological potential of the site”.</i> Forests and Biodiversity –Gofyniad 3 – <i>The implications of woodland creation and</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
		ac â nodweddion eraill y tirlun.	<i>management for biodiversity in the wider environment should be considered, including the roles of forest habitats and open habitats in ecological connectivity.</i> General Forest Practice – Gofynion 11 a 18 t. 25/26 – landscape Forests and Landscape – t. 102-127
(b) hyrwyddo cydweithio a chydweithredu , a chyfranogi ynddynt;	Dylai hyn fod yn gymesur â chymhlethdod a maint y cynnig. Mae'r Map Cyfleoedd Creu Coetir yn nodi'r nodweddion sensitif a'r manteision y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynnig i greu coetir, yn ôl cyfraniad y rhanddeiliad. Bydd yn <i>sail</i> ar gyfer cydweithio a chydweithredu. Dylai ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig ystyried hefyd y nodweddion sensitif y tu allan i'r Map e.e. ffyrddfaint, cyrsiau dŵr, hawliau tramwy'r cyhoedd.	Cysylltodd yr ymgeisydd a'r cynllunydd coedwigaeth â'r RSPB ac ni phlennir coed ar un rhan o'r safle ble mae cylfinirod yn nythu.	General Forest Practice – Gofyniad 13 - <i>Consultation on significant or sensitive proposals should be carried out with interested parties as forest management plans are developed.</i> <i>Consultation also frequent throughout UKFS doc in a variety of issues e.g.</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
	Dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth eu bod wedi cysylltu â chyrff perthnasol am nodweddion sensitif o fewn ac wrth y coetir y cynigir ei greu. (gweler Canllaw Creu Coetir Glastir i Gynllunwyr) Dylai'r cais ddangos sut mae cynllun y cynnig wedi ystyried cydweithio a chydweithredu. Os ydynt yn gymwys, dylid hefyd asesu a chofnodi yn y fan hon unrhyw gydweithio a fu â pherchenogion tir ar gynigion sydd ar raddfa tirlun. Pwysig – Dylid cofnodi hefyd unrhyw gydweithio a chytundeb rhwng proffesiynolion o fewn CNC e.e. â chynghorwyr arbenigol ar gynefinoedd neu RIGS.		<i>biodiversity, water, and public participation.</i>
(d) gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;	Mae angen cyfranogiad rhanddeiliaid a'r gymuned ar y rhan fwyaf o gynlluniau creu coetir. Dylid dangos a yw'r cyhoedd/cymydog wedi cael cymryd rhan, a dylid nodi hynny yn unrhyw newidiadau i'r cynllun. Mae GN002 yn rhestru sensitifeddu perthnasol a chysylltiadau allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd.	Trefnodd ymgeisydd / asiant ddigwyddiad ar gyfer y gymuned am gynnig i greu coetir 70ha, 2 filltir o'r gymuned. Darparwyd mapiau, ffotograffau a gwybodaeth am faterion a godwyd gan	Forests a People Good Forest Practice Gofyniad 7 <i>“Consideration should be given to involving people in the development of forestry proposals who have a recognisable</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
	Ar gyfer plannu coed trefol, bydd angen tystiolaeth bod cymunedau lleol wedi cael lawer fwy o ran.	y gymuned e.e. golygfannau, hawliau tramwy â chaniatâd, loriau cario coed, diogelu cynefinoedd. Mae tystiolaeth o'r digwyddiad ac ymatebion eraill wedi'i darparu ac mae'r dyluniad yn dangos yr aed i'r afael â'r pryderon, gyda chyfiawnhad dros adael pryderon eraill.	<i>interest in the proposal of its outcomes"</i> <i>Guidelines 1-4</i>
(e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch;	Mae'r adran hon yn gysylltiedig â pharagraffau (c) a (d) uchod ac yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth a gafwyd e.e. o ymweld â safleoedd. Dylai'r cais ddangos sut y mae tystiolaeth a gwybodaeth wedi'u defnyddio i ddod i benderfyniad a rhaid rhoi cyfiawnhad os yw'r dystiolaeth wedi'i gwrthod.	Rhestrir y dystiolaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn C a D uchod. Ymgorfforwyd y dystiolaeth hon yn y cynnig rhag cynnwys	UKFS General Forest Practice Legal 6 <i>"The impacts of forestry on the environment must be taken into account in the submission of forestry proposals."</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
	Mae'r adran yn gyfle i CNC gofnodi'i resymau dros ddilysu a chyfiawnhau'r dystiolaeth <u>os nad yw eisoes wedi gwneud hynny yn y paragraffau uchod</u> ac mae'n cynnwys cyngor mewnol/data a gafwyd gan gydweithwyr. Nid yw "tystiolaeth" yn golygu tystiolaeth wyddonol yn unig. Gallai gynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â data empirig a thystiolaeth wyddonol. Rhaid rhoi rhesymau clir pam mae tystiolaeth wedi'i gwrthod. Ar lefel safle, dylai CNC ymweld â safle'r cynnig i sicrhau bod y dystiolaeth sy'n sail dros ddewis y safle a dyluniad y cynnig yn gywir. Dylid cofnodi'r ymweliad a nodi'r dyddiad a manylion y staff. Dylid cofnodi manylion arolygon a gynhaliwyd fel tystiolaeth o'r camau a gymerwyd yn eu sgil, neu nodi lle y'u cedwir yn y broses ddilysu/asesu.	materion sy'n destun dadl. Cymisiynodd yr ymgeisydd/asiant arolwg ecolegol ar xx/xx/xx gan ecolegydd sydd wedi'i gofrestru â CIEEM. Ni chynhwyswyd cynefinoedd adran 7. Ymwelodd 'x' â'r safle ar 'y' a chadarnhau'r dystiolaeth a ddarparwyd. Ni welwyd nodweddion na phroblemau eraill.	

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
(f) ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau; Dylid ystyried cyfleoedd i borthi, cefnogi a rheoleiddio gwasanaethau neu fanteision ecosystemau a chynyddu'r cyfleoedd hynny os gellir. (Taflen gan CNC – Cyflwyno Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol –	Mae'r Map Cyfleoedd Creu Coetir³ yn cynnwys gwybodaeth ofodol am nifer o wasanaethau ecosystem. Dylid dylunio neu leoli cynigion gyda golwg ar ddarparu amrywiaeth o fanteision gwasanaethau ecosystem. Rhestrwch fanteision A/NEU anfanteision ecosystem y cynnig. Cynhwyswch fesurau i leihau'r anfanteision a'u heffeithiau tebygol. Dylai cynllun creu coetir ddangos lle bo angen y manteision sy'n cael eu darparu neu eu gwella e.e. ansawdd aer a dŵr, pren. Gweler yn Atodiad 5 restr anghyflawn o'r manteision a ddarperir gan ecosystemau.	Plannu coed ar ran ddiarffordd a llai cynhyrchiol o'r fferm i gefnogi busnes biomas y fferm, darparu cynefin i fflora a ffawna, ffrwyno a lleihau dŵr ffo sy'n llifo i'r afon gyfagos a chyfrannu at leihau'r llygredd gwasgaredig yn y dalgylch ehangach.	UKFS General Forest Practice UK – Canllawiau 4-8 <i>“Maintenance of the productive potential of forests includes both timber production, which serves the development of forest industries and economic well-being, and wider non-market benefits and values such as recreation and other ecosystem services”</i> Forests and Climate change – canllaw 32 – <i>When siting and designing new woodland, consider the potential benefits in relation to flood alleviation,</i>

³ Ceir cytundeb cyffredinol mai rôl Datganiadau Ardal yw nodi cyfleoedd i greu coetir, ond nid ydynt yn addas ar gyfer rheoleiddio'r broses creu coetir na nodi ble mae'r sensitifedau. Rôl y Map Cyfleoedd Creu Coetir yw hynny.

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
canolbwyntio ar y manteision).			<i>improvement of water quality and other ecosystem services.</i>
(g) ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd Wrth gynllunio ar gyfer creu coetir, rhaid ystyried y tymor byr, canolig a hir i brofi bod y cynllun yn gynaliadwy ac wedi'i baratoi'n dda.	Dylid gwneud y coetir yn fwy cydnerth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd a chlefydau yn y dyfodol trwy ystyried ei leoliad, ei ddyluniad, y rhywogaethau a ddewisir a sut y caiff ei reoli yn y dyfodol. Ystyriwch y cymysgedd o rywogaethau a ble i'w plannu o safbwynt y nodweddion sensitifedd, a'r potensial i gynnal mannau agored a chyfleoedd i leihau'r effeithiau. Dylid edrych tua'r dyfodol – gan wneud yr ecosystem (coetir newydd a'r cynefinoedd gorau) yn fwy cydnerth ar gyfer y dyfodol, yn hytrach nag adfer yr ardal i'r hyn ydoedd. Dylai CNC ystyried sut y bydd bioamrywiaeth a chydnerthedd a gwasanaethau ecosystem yr ardal yn esblygu gyda'r cynnig a hebddo, yn y tymor byr, canolig a hir. Cofnodwch y canlyniadau tymor byr, canolig a hir tebygol, gyda'r cynnig a hebddo.	Ar hyn o bryd, mae'n gynefin gwlyb agored sy'n cael ei bori. Y cynnig – ni fydd modd ei bori yn y dyfodol oherwydd lleoliad a maint y cynefin o fewn y coetir. Yn glustog i'r cynefin gwlyb rhag y coed conwydd y mae coed a llwyni llydanddail brodorol, i rwystro'r coed conwydd rhag lledaenu a chyfrannu at gydnerthedd y cynefin Effeithiau'r ecosystem:- Rheoli dŵr yn well; cynhyrchu mwy o bren;	UKFS Box 4.1 (p.15) Balanced objectives - “Sustainable forest management involves ensuring that the production of all forest and woodland benefits is maintained over the long term. This is achieved when the environmental, economic and social functions of forests and woodland are interacting in support of each other” General Forestry Practice – Gofyniad 14 - <i>Forests and woodlands should be designed to achieve a diverse structure of habitat,</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
		lliniaru a chynnal rhyngweithiad rhwng bioamrywiaeth.	<i>species and ages of trees that is appropriate to the scale, context and ecological potential of the site.</i> UKFS t.192 - Woodland plans should be regularly reviewed and updated.
(h) cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau;	Fel ag a restrir yn adrannau (c), (d) ac (e) uchod, dylai'r holl dystiolaeth fod wedi cael ei hystyried gan gyfrannu at osgoi niwed arwyddocaol i ecosystemau. Rhestrwch unrhyw weithredu pellach sydd wedi'i wneud nad ydych wedi sôn amdano uchod. Dylai cyngor gan gyrff perthnasol a newidiadau addas i ddyluniad y cynnig sicrhau y gellir osgoi'r posibilrwydd o niwed arwyddocaol ar lefel leol a strategol.	Cafwyd cyngor ar sensitifeddau a'i roi ar waith, yn unol â phara (e) uchod.	Forests and Biodiversity Legal 1, Forests and Water Legal 12 <i>“Appropriate protection and conservation must be afforded where sites, habitats and species are subject to the legal provisions of EU directives and UK and country legislation. Advice can be obtained from the relevant authorities on minimising potentially adverse effects</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
			<i>for management activity likely to affect them.”</i> Forests and Biodiversity – Gofynion 3 a 4; Canllawiau 1-5
(i) ystyried cydnerthedd ecosystemau ac yn benodol, yr agweddau a ganlyn — amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; Mae ecosystemau amrywiol yn gallu gwrthsefyll dylanwadau allanol	Fel ag a ddisgrifir yn g), dylai hyn edrych tua'r dyfodol – gan wneud yr ecosystem (coetir newydd a'r cynefinoedd gorau) yn fwy cydnerth ar gyfer y dyfodol, yn hytrach nag adfer yr ardal i'r hyn ydoedd. Mae cysylltu darnau o gynefin yn helpu genynnau a rhywogaethau i symud, gan ganiatáu i ecosystemau weithio'n effeithiol ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Gall darnau bychain o gynefin fod yn werthfawr ond gall effeithiau'r ymylon ddylanwadu arnynt. Mae estyn cynefin coediog o ansawdd da yn gam positif at sicrhau ecosystem gydnerth.	Cymysgedd rhywogaethau – 40% sbriws sitka, 20% ffynidwydd Douglas, 25% coed a llwyni llydanddail brodorol, 10% mannau agored. Darnau gwasgarog bychain o borfa brwynog Adran 7 o ansawdd da ar y safle. Fel ag a ddisgrifir yn (g) plennir coed a llwyni brodorol ger y mannau hyn i'w clustogi rhag rhywogaethau tramor,	General Forest Practice – Gofyniad 16 – <i>Forests should be planned and managed to enhance their resilience and mitigate the risks posed to their sustainability by the effects of climate change or attack by pests or diseases.</i> Forests and Climate Change – Canllaw 18 – <i>Plan for forest resilience using a variety of ages, species and stand structure; consider the risks to the</i>

Egwyddorion SMNR – Sut ydym yn gweithio i wireddu amcan SMNR	Beth i'w ystyried	Tystiolaeth ein bod yn dilyn egwyddorion SMNR Enghraifft:-	Tystiolaeth UKFS ei fod yn cydymffurfio â'r SMNR wrth greu coetir
a'u heffeithiau yn well. y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); gallu ecosystemau i addasu.	Ni ddylai cynigion danseilio cyflwr y safle na'r ecosystemau o'i gwmpas, yn enwedig os yw'n agos at ecosystemau/derbynyddion. Cofnodwch y mathau o gynefinoedd sy'n bresennol, eu maint a'u cyflwr. Cofnodwch dystiolaeth o fewn cynigion dylunio a fydd yn cyfrannu at agweddau ar gydnerthedd e.e. y cymysgedd o rywogaethau, amrywiaeth strwythurol debygol, matricesau a lleoliad cynefinoedd, defnydd o fannau agored, estyn neu glustogi cynefinoedd sydd â rhywogaethau brodorol, cysylltu cynefinoedd. Sut mae rhywogaethau wedi'u defnyddio yn y cynnig i wneud bioamrywiaeth yn fwy cydnerth i wrthsefyll newidiadau allanol e.e. newid hinsawdd / llygredd amaethyddol.	gan eu cysylltu â chynefinoedd eraill os medrir. Nid oes modd pori'r cynefinoedd oherwydd eu maint ac am eu bod yn anhygyrch. Mae mesurau'n rhan o'r dyluniad i ddiogelu a chynnal cynefinoedd ar gyfer y dyfodol. Mae'r cymysgedd o rywogaethau yn sicrhau y bydd y coetir yn gallu gwrthsefyll plâu/clefydau ac eithafion y tywydd yn y dyfodol.	<i>forest from wind, fire, and pest and disease outbreaks</i> UKFS t.62 –Approaches to Adaptation – <i>In developing resilience, a balance is required to ensure that, as far as possible, the integrity of existing ecosystems is maintained.</i>

CRYNODEB	Rhowch ddisgrifiad byr o sut bydd eich cynnig yn cynnal ac yn gwella cydnerthedd yr ecosystemau. Dylai gynnwys disgrifiad byr o'r safle/ecosystem a sut y bydd yn newid o ganlyniad i'r cynnig, gan werthuso'r dystiolaeth o'r egwyddor berthnasol uchod.	
	Sut bydd y cynnig yn cynnal ac yn gwella manteision yr ecosystem a'u perthynas â'r nodau llesiant.	
	Lle bo gofyn, rhowch ddisgrifiad byr o'r meysydd sy'n dal i fod yn destun dadl ac a ddylent bellach gael eu trafod gan y Panel Adolygu.	
	Lle bo gofyn – rhowch grynodedb o benderfyniad y Panel Adolygu.	
	Wrth ystyried y crynodebau uchod, rhaid penderfynu a yw'r cynnig a'r asesiad ohono (gan gynnwys cyfraniad CNC) yn gwireddu amcan cyffredinol Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol . Os yw, a yw dyletswydd Adran 6 – cynnal a gwella bioamrywiaeth – yn cael ei chyflawni.	

Atodiad 4 – Ystyriaethau all gwrthdaro â'i gilydd – cadw'r ddysgl yn wastad

Mae'r tablau canlynol yn rhestru'r ffactorau, sef yn bennaf mathau o gynefin a dynodiadau anstatudol, y gellid edrych yn ffafriol arnynt wrth ystyried cynigion ar gyfer creu coetir CYN BELLED â bod rhai ystyriaethau'n cael eu bodloni. Rydym yn rhestru'r rhain fel 'ystyriaethau' a 'chanlyniadau' a nodwn y rhesymau sylfaenol hefyd. Diben y categorïau isod yw rhoi canllaw i staff CNC wrth iddynt drafod ag ymgeiswyr ac nid ydynt yn golygu bod pob cynnig yn briodol.

Rhaid i ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig sydd am gynnwys y categorïau o gynefin hyn yn eu cynigion drafod eu cynigion yn y lle cyntaf gyda Thîm Rhaglenni Coetir CNC neu Dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) (achosion EIA) CNC, **ymhell** cyn cyflwyno'u cais er mwyn cael cadarnhad ei fod yn briodol. Dylech anfon **tystiolaeth ffotograffig hefyd** o'r safle a'r tir o'i gwmpas, fel y gall swyddogion Tîm Rhaglenni Coetir CNC neu Dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC drafod y safle ag arbenigwyr cynefinoedd CNC (neu Brif Gynghorydd Technegol) fydd yn gallu dweud a oes angen ymweld â'r safle neu gynnal arolwg. Os oes angen arolwg ecolegol, dylid dweud wrth ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig i sicrhau bod yr ecolegydd a gomisiynir yn aelod o CIEEM er mwyn bod yn siŵr bod y gwaith o ansawdd derbyniol.

Mathau o gynefin

Cynefin o ansawdd cyfyngedig (Llystyfiant lled-naturiol y mae llawer ohono wedi'i wella'n amaethyddol)
Ystyriaethau: - Mae <i>cynefin o ansawdd cyfyngedig</i> yn cyfeirio at gyfansoddiad a nifer y rhywogaethau o blanhigion yn y cynefin. Ni ddefnyddir y term "cyflwr gwael" rhag drysu â chynefin heb ei wella sy'n cael ei reoli'n wael a fyddai'n ymadfer o wella cyfansoddiad rhywogaethau'r llystyfiant. - Cynefinoedd yw'r rhain sydd wedi dirywio i'r graddau na ellir eu galw'n gynefinoedd Adran 7 mwyach ond bod dal peth amrywiaeth ynddynt. Dylai ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig adnabod cynefinoedd posibl nad ydynt yn cael eu dangos ar y Map Cyfleoedd Creu Coetir a gofyn a ydynt yn addas ar gyfer eu plannu. Byddai hynny'n gyson â chanllaw'r UKFS.

Cynefin o ansawdd cyfyngedig (Llystyfiant lled-naturiol y mae llawer ohono wedi'i wella'n amaethyddol) • RHAID i Dîm Rhaglenni Coetir CNC neu Dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ofyn am dystiolaeth ffotograffig a thrafod ag arbenigwyr cynefinoedd CNC. Bydd angen caniatâd CNC ar SoDdGA'au. (SSSi.notices@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk). • Mae GN002 a GN009 yn esbonio'n fanylach wrth ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig pa gynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth.
Canlyniad— • Lle ceir cynefin o ansawdd cyfyngedig neu sydd heb fawr o werth i gydnerthedd cynefinoedd eraill, neu lle bo arbenigwr cynefinoedd CNC yn cadarnhau hynny, mae'n briodol plannu coed conwydd neu lydanddail ar y safle, yn unol â'r UKFS. • Dylid cadw darnau bychain o gynefin uchel eu gwerth sy'n haeddu cael eu cadw neu sy'n gwneud cyfraniad positif at y ffordd y mae ecosystem yr ardal yn gweithio. Dylid eu cynnwys fel rhan o'r cynnig plannu ehangach yn unol â'r UKFS a dylid plannu llain o goed a llwyni llydanddail brodorol i'w clustogi rhag lleiniau o goed conwydd. Dylid annog eu cadw fel mannau agored ond nid yw hynny'n orfodol. • Lle mae safleoedd SINC yn cael eu herio, dylai Tîm Rhaglenni Coetir CNC neu Dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ystyried y SINC o safbwynt yr uchod a rhaid iddynt anfon eu canfyddiadau a thystiolaeth ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig at arbenigwr cynefinoedd am gadarnhad/cyngor.
Rhesymau:— Mae cynefin o ansawdd cyfyngedig (cynefin â chyfran arwyddocaol ohono wedi'i wella'n amaethyddol) yn safle sydd â llai o werth i fioamrywiaeth, lle mae cyfansoddiad y rhywogaethau a'u nifer yn wael. Nid oes llawer o gyfiawnhad felly dros beidio â phlannu'r rhannau hyn. Ond ar ambell safle, dim ond mân-welliannau fydd wedi'u gwneud, ac er na fydd mwyach yn gynefin Adran 7, bydd o ansawdd cymhedrol ac efallai o werth am ei gydnerthedd ecolegol, er enghraifft os yw'n rhan o rwydwaith o gynefinoedd.

Glaswelltir Asidig yr Ucheldir

Ystyriaethau –

- Nid yw Glaswelltir Asidig yr **Ucheldir** yn gynefin adran 7 a gellir plannu arno felly am fod ynddo lai o amrywiaeth o rywogaethau ac am ei fod yn gynefin cyffredin yng Nghymru.
- Mae Glaswelltir Asidig yr Iseldir yn gynefin Adran 7 ac **ni** ddylid plannu arno. Yn ôl y rheoliadau, mae “**islaw** terfyn uchaf tir wedi'i amgáu' ac y ceir fel arfer fwy o rywogaethau a chaiff ei ffermio'n fwy dwys.
- Dylid ystyried presenoldeb rhywogaethau Adran 7 a'r effaith arnynt, gan ddibynnu ar ba mor gyffredin y mae'r math hwn o gynefin.

Canlyniad –

- Yn aml iawn, byddai'n briodol plannu coed llydanddail a/neu gonwydd sy'n addas i amodau'r safle yn unol â'r UKFS ar Laswelltir Asidig yr **Ucheldir**. Ond rhaid ystyried y **sensitifeddau eraill** a ddangosir ar y map cyfleoedd e.e. cynefin/rhywogaeth Adran 7 neu fawn dwfn y dylid peidio â phlannu coetir arno ac a fyddai efallai'n gofyn am newid y cynigion plannu.

Rhesymau –

Gweler uchod. Rydym wedi'i gynnwys er mwyn rhoi eglurder.

Porfeydd Glaswellt y Gweunydd (Glaswellt Corsiog) (Rhos bori)

Ystyriaethau–

- Mae gwerth y Borfa Gorsiog (Molinia a Juncus) yn dibynnu i raddau helaeth ar leoliad y cynefin. Cewch blannu coed ar Laswelltir Corsiog yr **Ucheldir** gan fod llai o amrywiaeth o rywogaethau yno ar y cyfan a chan fod eangderau ohono yng Nghymru.
- *Ystyr ucheldir yw **uwchlaw** terfyn uchaf tir wedi'i amgáu.*
- Mae Glaswelltir Corsiog yr Iseldir wedi'i gynnwys yng nghynefin adran 7 Porfa Glaswelltir y Gweunydd a Brwyn. Mae'n bodoli **islaw terfyn uchaf tir wedi'i amgáu**. Mae'n cael ei ystyried yn gynefin gwerthfawr oherwydd yr amrywiaeth uwch o rywogaethau.

Porfeydd Glaswellt y Gweunydd (Glaswellt Corsiog) (Rhos bori)
Lle cynigir plannu coed ar ddarnau mawr o Laswelltir Corsiog yr Ucheldir, dylid ystyried presenoldeb rhywogaethau Adran 7 a'r effaith arnynt, gan ddibynnu ar ba mor gyffredin y mae'r math hwn o gynefin.
Canlyniad – Byddai'n briodol plannu coed llydanddail a/neu gonwydd sy'n addas i amodau'r safle yn unol â'r UKFS ar Laswelltir Corsiog yr Ucheldir (Molinia a brwyn). Ond rhaid ystyried y sensitifeddau eraill a ddangosir ar y map cyfleoedd e.e. cynefin/rhywogaeth Adran 7 neu fawn dwfn y dylid peidio â phlannu coetir arno ac a fyddai efallai'n gofyn am newid y cynigion plannu.
Rhesymau – Mae Glaswellt y Gweunydd ar yr Iseldir yn gynefin ag amrywiaeth o rywogaethau ac yn gysylltiedig â chynefinoedd eraill fel gwaun wlyb, cors neu fawnog, ac mae ei fioamrywiaeth o werth uwch. Ni ddylid plannu ar y cynefin hwn.

Rhedyn Trwchus
Ystyriaethau– - Os yw'r cynnig yn cynnwys rhedyn sydd wedi'i nodi y Map Cyfleoedd fel safle posibl ar gyfer y fritheg (glöyn byw), dylai'r Cynllunydd Cofrestredig ddangos tystiolaeth ei fod wedi gofyn barn yr Ymddiriedolaeth Gloynnod Byw (gweler GN002). - Ni ddylid plannu coed ar redyn mewn coetir pori (cynefin adran 7) - Dylid ystyried beth yw trwch y rhedyn a fflora'r llawr. Os ceir cynefin adran 7 o dan ganopi o redyn, dylid ei ystyried yn gynefin adran 7.

Rhedyn Trwchus

Canlyniadau –

- Rhaid addasu'r cynnig os yw'r Ymddiriedolaeth Gloynnod Byw yn cadarnhau y gallai'r safle gynnal y fritheg.
- Gellir plannu coed conwydd a llydanddail ar safleoedd na fyddai'n denu'r fritheg, yn unol â'r UKFS.
- Ni ddylid cynnwys cynefin adran 7 o dan ganopi o redyn fel rhan o'r cynnig plannu.

Rhesymau –

Yn unol â GN002 – Bydd cynefin y fritheg fel arfer yn cynnwys rhedyn ar lethrau o dan 300m sy'n wynebu'r de (er y gall llethrau sy'n wynebu'r dwyrain a'r gorllewin fod yn addas hefyd), gyda'r planhigyn sy'n cynnal y lindys yn bresennol.

Mae rhedyn trwchus fel arfer yn cysgodi fflora'r llawr neu'n creu cymuned glaswelltir dlawd.

Ambell waith, ceir cynefin adran 7 o dan ganopi o redyn (fel arfer glaswelltir asidig yr iseldir neu dir niwtral heb ei wella). Mae'r cynefin hwn yn darparu'r un manteision o ran bioamrywiaeth â'r rheini heb redyn a gall bara gyda gwaith rheoli addas. Mae coetir pori yn gynefin adran 7 a gall rhedyn fod yn rhan o'r cynefin hwnnw.

Ffridd

Ystyriaethau –

- Gall ffriddoedd fod yn werthfawr iawn o ran bioamrywiaeth, ond yn wahanol i Goetir Pori, nid ydynt ar hyn o bryd yn gynefinoedd adran 7.
- Mae ffriddoedd fel arfer yn glytwaith o gynefinoedd. Bydd rhai ohonynt yn gynefinoedd adran 7 ond nid rhai eraill (glaswelltir asidig yr ucheldir, rhedyn trwchus, coed gwasgaredig, cnycâu o graig er enghraifft). Mae gwerth ffridd o ran ei bioamrywiaeth (a'i gwasanaethau ecosystem) yn amrywio'n fawr yn ôl y cynefinoedd a geir ynddi.
- Dylai ansawdd y cynefinoedd neu eu cymysgedd gael ei asesu yn ystod yr ymweliad â'r safle yn unol â'r canllaw ar "Gynefinoedd o Ansawdd Cyfyngedig" a ddisgrifir yn yr Atodiad hwn.

Ffridd
Rhaid i Dîm Rhaglenni Coetir CNC neu dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC ofyn am dystiolaeth ffotograffig a thrafod ag arbenigwyr cynefinoedd CNC i asesu gwerth a phriodoldeb plannu coetir.
Canlyniad – - Os bydd Arbenigwr CNC yn cadarnhau bod ansawdd cynefin neu glytwaith o gynefinoedd yn gyfyngedig, gall fod yn briodol plannu coed conwydd neu lydanddail, yn unol â'r UKFS. - Dylai tirwedd fod yn ystyriaeth hefyd yn y broses benderfynu.
Rhesymau – Mae'r ffriddoedd yn dirwedd hanesyddol, diwylliannol a gweledol bwysig, sy'n ddolen ecolegol rhwng yr iseldir a'r ucheldir, ac yn helpu symudiadau rhywogaethau niferus. Er nad yw'n gynefin adran 7, gall fod yn glytwaith gwerthfawr o gynefinoedd sy'n bwysig i amrywiaeth o rywogaethau. Lle caniateir plannu coed, dylid ystyried y dirwedd yn ofalus yn unol â'r UKFS.

Dynodiadau Anstatudol – SINC, RIGs a SLAs

RIGS (Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Ranbarthol)
Ystyriaethau– Dynodiadau lleol anstatudol yw RIGS sy'n cynnwys y lleoedd pwysicaf o ran eu daeareg, geomorffoleg a phridd y tu allan i'r rhwydwaith cenedlaethol o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

RIGS (Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Ranbarthol)
Mae GN002 eisoes yn gofyn i Gynllunwyr Cofrestredig holi daearegwyr CNC am eu cynigion. Trwy wneud, ceir gwybod pa safleoedd sydd ar fin cael eu dynodi'n SoDdGA er mwyn iddynt allu ystyried hynny yn eu cynlluniau plannu.
Canlyniad – Dylai ymgeiswyr ystyried y problemau a godir gan ddearegwyr CNC a newid eu cynlluniau a'u cynigion i leihau neu osgoi effeithiau gan gydbwyso hynny â'r angen i'r ecosystem ehangach weithio yn unol ag SMNR.
Rhesymau– Gan ddibynnu ar natur y RIG a maint y cynnig plannu coed, dylai fod yn bosibl addasu cynigion plannu er mwyn lleihau'u heffeithiau ar nodweddion daearegol a dylid ystyried eu taldra a dyfnder eu gwreiddiau wrth ddewis y cymysgedd o rywogaethau.

SINC s (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
Ystyriaethau – - Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC) yn ddynodiadau anstatudol gan awdurdodau lleol am eu pwysigrwydd i fywyd gwyllt. Mae'r system gynllunio'n eu defnyddio i nodi a gwarchod cynefinoedd rhag eu datblygu. Efallai na fydd perchennog y tir yn gwybod am eu bodolaeth. <i>Nid</i> yw'r Map Cyfleoedd yn dangos SINCa'u gan nad oes cofnod llawn ohonynt yng Nghymru. Mae GN002 yn cynghori Cynllunwyr Cofrestredig i holi Awdurdodau Lleol am eu manylion a'u presenoldeb. Caiff GN002 ei ddiweddarau gan fod ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig yn cael cysylltu â thimau CNC bellach ar ddechrau'r broses o ddatblygu ceisiadau. - RHAID i dîm Rhaglenni Coetir CNC neu dîm Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) CNC archwilio ceisiadau am SINCa'u, gan ofyn am dystiolaeth ffotograffig os oes gofyn a thrafod ag arbenigwr cynefinoedd yn CNC.

SINCs (Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur) Canlyniadau – • Os oes SINC, dylai ceisiadau gydymffurfio â'r pwyntiau a godir neu dylai'r ymgeiswyr/Cynllunwyr Cofrestredig roi rhesymau clir a thystiolaeth ffotograffig. • Dylai Tîm Rhaglenni Coetir/Gwasanaethau Trwyddedu (coedwigaeth) gadarnhau'r categori "cynefin o ansawdd cyfyngedig" yn yr Atodiad hwn a rhaid iddynt anfon eu canfyddiadau a thystiolaeth at arbenigwr cynefinoedd am gadarnhad/cyngor a fyddai plannu coed yn briodol. • Os yw'n briodol plannu coed, gellir ystyried coed llydanddail neu gonwyd yn unol â'r UKFS. • Safleoedd Bywyd Gwyllt – dylai perchenogion tir wybod amdanynt a dylid felly osgoi plannu coed arnynt heb gytundeb yr awdurdod lleol/ymddiriedolaeth natur perthnasol.
Rhesymau– Er nad oes statws statudol i'r SINC s, maen nhw'n dal yn bwysig, ac yn cyfrannu at rwydweithiau. Mae llawer ohonynt yn gynefinoedd adran 7 a bydd Deddf yr Amgylchedd yn eu gwarchod i raddau. Bydd ansawdd a phwysigrwydd SINC s yn amrywio oherwydd yr amser ers eu dynodi ac am fod awdurdodau lleol yn defnyddio amodau gwahanol i'w dewis. Os caiff pwysigrwydd SINC ei herio, bydd angen barn arbenigwr cynefinoedd i sicrhau bod person cymwys wedi rhoi cyngor. Fel Cynghorydd Statudol i LIC ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol, caiff barn arbenigwr cynefinoedd CNC flaenoriaeth dros farn ecolegydd allanol.

SLA (Ardaloedd Tirwedd Arbennig)
Ystyriaethau – • Mae SLAs yn ddynodiadau anstatudol sy'n nodi tirweddau lleol o bwys arbennig, a allai fod yn unigryw, eithriadol neu nodedig i'r ardal. Dylai awdurdodau lleol eu creu os oes rheswm da i gredu na fydd y polisïau cynllunio arferol yn ddigon cryf i'w gwarchod. (PPW 10 p.133) • Mae GN002 yn rhoi arweiniad hefyd i Gynllunwyr Cofrestredig holi Timau Glastir CNC ac awdurdodau lleol a oes SLAs wedi'u dynodi, lle bwriedir plannu coetiroedd mwy na 5ha o faint. • Dylid cyfeirio at yr UKFS wrth ystyried effaith plannu coetir newydd ar y dirwedd.
Canlyniadau– • Dylid edrych yn ffafriol ar blannu coetir os medrir a delio â'r problemau y bydd awdurdodau lleol wedi'u gweld yn y cynllun plannu. Dylid ystyried manteision y cynnig a'i effaith ar y SLA a'i gyfiawnhau yn unol ag SMNE ac â gofynion yr UKFS o ran y dirwedd.
Rhesymau – Gan ddibynnu ar natur yr SLA a maint y cynllun plannu, dylid medru addasu'r cynigion plannu i leihau unrhyw effeithiau. Gallai hynny olygu newid y cymysgedd o rywogaethau neu ddyluniad y coetir.

Maawnogydd a phridd organo-fwynol
Ystyriaethau – Mae pridd yn storio cyfran fawr o'r biocarbon (y carbon sydd ym mhlanhigion y tir, ac yn y pridd, yr anifeiliaid a'r ecosystem yn gyffredinol).

Maawnogydd a phridd organo-fwynol

Mae mawnogydd yn gynefin gwerthfawr hefyd a dylid eu hasesu yn ôl SMNR.

Mae pridd mawn sydd â haenen organig (gorwel O) o fwy na 50cm o ddyfnder ar ei wyneb yn cael ei alw'n bridd mawnog neu fawn dwfn ac mae'r UKFS yn gwahardd plannu coed arnynt:-

- *Soil guidance 24 - Avoid establishing new forests on soils with peat exceeding 50 cm in depth and on sites that would compromise the hydrology of adjacent bog or wetland habitats.*

Mae pridd sydd â haenen organig ar yr wyneb o lai na 50 cm o ddyfnder yn cael ei alw'n bridd organo-fwynol neu fawn bas. Er bod yr UKFS yn caniatáu plannu coed, mae amodau er mwyn diogelu'r pridd:-

- *Soil guideline 13 - Minimise the soil disturbance necessary to secure management objectives, particularly on organic soils.*
- *Soil guideline 14 - Consider the potential impacts of soil disturbance when planning operations involving cultivation, harvesting, drainage and road construction*

Mae cyngor newydd ar sut i baratoi/trin y tir wedi'i lunio yn unol â'r UKFS (gweler drafft yn Atodiad 6). Dylid cyfeirio at hwn pan gaiff ei gyhoeddi. Mae'n cyd-fynd â'r Cod Carbon Coetir – cynllun gwirfoddol sy'n hyrwyddo masnachu carbon.

Pwysig: Mae mawn dwfn yn ôl diffiniad yr UKFS yn >50cm o ddyfnder a defnyddir y diffiniad ledled y DU. Dyna ddiffiniad Arolwg Priddoedd yr Alban hefyd. Yn ôl diffiniad Cymru a Lloegr, mae pridd mawn yn >40cm o ddyfnder o fawn; a phridd organo-fwynol yn <40cm o ddyfnder o fawn. Bydd rhagor o ymchwil yn bwydo'r adolygiad y mae'r UKFS wrthi'n ei gynnal. Tan hynny, **bydd Cymru'n cadw at ddiffiniad yr UKFS fel ag y mae ar hyn o bryd.**

Canlyniad–

- Pridd mawn – ni ddylid plannu coed arnynt, ond dylid eu cadw fel mannau neu gynefin agored yn unol â'r UKFS.
- Gellir plannu coed llydanddail a/neu gonwydd sy'n addas i'r safle ar bridd organo-fwynol yn ôl yr UKFS **ar ôl ystyried sensitifeddau eraill** e.e. presenoldeb cynefin neu dirwedd a'u hansawdd ac ati. Dylid eu hasesu ar sail egwyddorion SMNR gan addasu'r cynigion yn unol â hynny.
- Dylai ymgeiswyr baratoi'r tir gan ddefnyddio'r dull trin sy'n amharu leiaf arno, i sicrhau bod y coed yn cydio.

Rhesymau –

Maawnogydd a phridd organo-fwynol

Yn ôl asesiad Forest Research o dystiolaeth newydd o ailgoedwigo ac ailstocio ar briddoedd mawn⁴:-

- Mae'n edrych yn 'debygol iawn' o hyd bod coedwigoedd cymhedrol ac uchel eu cynhyrchiant sy'n cael eu plannu ar bridd mawn bas heb fawr o aflonyddu arno yn ddalfa garbon net sylweddol dros y cylch coedwigo. Hynny yw, mae'r goedwig yn dal ac yn trosglwyddo i'r pridd fwy o garbon nag a gollir trwy ddadelfeniad y pridd.
- Ar y cyfan, dros nifer o gylchoedd coedwigo, mae'r stoc garbon yn bostif ar **safleoedd** o bridd mawn bas.
- Mae adroddiadau diweddar yn cadarnhau bod technegau trin y pridd ar gyfer plannu coed, fel draenio ac aredig, yn cynyddu swm net y nwyon tŷ gwydr a ollyngir o'u cymharu â pheidio â draenio a thir tir mawn. Trwy newid o'r dull aredig dwfn traddodiadol i aredig bas, ceir llai o aflonyddu ar y pridd.
- Prin yw'r dystiolaeth newydd am bridd organig (mawn dwfn). Mae mwyafrif yr astudiaethau'n dangos bod coedwigo ar fawn wedi'i ddraenio, gan ddibynnu ar natur y tyfiant a'r cynhyrchiant, yn debygol o greu dalfa garbon net er colli llawer o fawn. Mae angen mwy o ymchwil a data fodd bynnag. Dylech felly **beidio â phlannu coed ar fawn dwfn** fel dalfa garbon yn unol â'r UKFS.

Fodd bynnag, mae angen rhagor o ymchwil ac mae'r UKFS wrthi'n cael ei hadolygu. Gall y cyngor uchod newid yn y dyfodol.

⁴ Afforestation and restocking on peaty soils – new evidence assessment – Forest Research and James Hutton Institute, 2018, Climate xChange

Atodiad 5 – Gwasanaethau ecosystem a chreu coetir

Gellir ystyried gwasanaethau ecosystem fel y cyswllt rhwng yr ecosystem a lles pobl. Dyma'r prosesau y mae ecosystemau naturiol yn cynhyrchu adnoddau trwyddynt ac sy'n cael eu defnyddio'n oddefol ac yn weithredol i roi cynhaliaeth a manteision i bobl. Diogelu a gwella'r cyfalaf naturiol a'r gwasanaethau ecosystem a ddaw ohono yw sylfaen y rheoli cynaliadwy ar goedwigoedd a ddisgrifir yn yr UKFS.

Gellir rhannu'r gwasanaethau neu'r buddiannau yn 4 categori:-

Categoriâu gwasanaethau ecosystem	Gwasanaethau ecosystem
Gwasanaethau cynnal	Ffurio pridd Ailgylchu maethynnau Ailgylchu dŵr Mae bioamrywiaeth yn perthyn i'r adran hon gan ei bod yn sbarduno llawer o'r gwasanaethau cynnal Peillio
Gwasanaethau darparu	Pren – deunydd adeiladu cynaliadwy Coed tanwydd/ynni adnewyddadwy Adnoddau genynnol Darparu cynefinoedd Bwyd gwyllt
Gwasanaethau rheoli	Rheoli llifogydd Ansawdd dŵr Ansawdd aer/dal llygredd Rheoli sŵn Storio carbon Rheoli'r hinsawdd – lliniaru ac addasu – gan gynnwys cysgod Diogelu pridd Bioddiogelwch
Gwasanaethau diwylliannol	Hamdden Eco-dwristiaeth Ysbrydol/lles Treftadaeth ddiwylliannol Tirwedd Amwynderau Addysg Mannau gwyrdd hygyrch Gwerthfawrogi natur/bywyd gwyllt Cydluniant cymunedol

Atodiad 6 – Aflonyddu pridd a Charbon

Lefelau aflonyddu pridd dulliau paratoi pridd a % tybiedig y carbon a gollir o'r uwchbridd – (bellach yng Ngharboniadur y Cod Carbon Coetir)

(Cadwyd testun y tabl fel y'i codwyd o'r gwreiddiol.)

Method of Site Preparation	Volume disturbed m3/ha	% of Topsoil (0-30cm) disturbed	Organomineral: % Topsoil carbon (0-30cm) to subtract	Mineral: % Topsoil carbon (0-30cm) to subtract
Manual screening	Negligible		0%	0%
Hand turfing or Subsoiling (ripping and tining)	60	2%	5%	0%
Patch Scarification using excavator or Bracke	90	3%	5%	0%
<i>Drains at 250m/ha (360° excavator with a draining bucket)</i>	134	4%	5%	0%
Inverted & Hinge Mounding using excavator	160	5%	5%	0%
Patch Scarification using shallow scarifier - discontinuous mounding	215	7%	5%	0%
Drain mounding using excavator	246	8%	5%	0%
Trench mounding using excavator (with drains @250m/ha)	380	13%	5%	0%
Shallow/ rotary plough using double throw rotary mouldboard	560	19%	10%	2%
Line scarification using disc scarifier (Shallow continuous strip)	630	21%	10%	2%
Shallow plough using double throw mouldboard	710	24%	10%	2%
Line scarification with disc scarifier (Deep continuous strip)	840	28%	10%	2%
Deep plough with single or double throw mouldboard	1,030	34%	20%	5%
Deep plough with tine using double throw mouldboard	1,430	48%	20%	5%
Deep plough with tine using single throw mouldboard	1,575	53%	20%	5%
Agricultural ploughing	2,500	83%	40%	10%